AHNE Bryniau Clwyd
Clwydian Range AONB

LLWYBRAU DIRGELION Y DDAEAR

Dewch i ganfod cyfrinachau'r coedwigoedd

Dilynwch stori Fflach

Edrychwch drwy'r CRISIAL yn y pecyn ar eich cefn i weld y byd fel mae Fflach yn ei weld

Llwybrau Posau GEMAU

DARGANFYDDWCH Earthcaching!

yng Nghoed Moel Famau a Choed Nercwys

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Croeso i chi sy'n Chwilio am Gyfrinachau'r Ddaear

EICH HER

Beth am ddatrys y posau yng NGHOED MOEL FAMAU (tudalen 5) i ddychwelyd Fflach at yr enfys neu i ganfod cyfrinachau LLWYBR POSAU COED NERCWYS (tudalen 7).

Y cyfan sydd ei angen yw'r LLYFR GWEITHGAREDD hwn a CHWILIWR POSAU GPS ac rydych yn barod i fynd!

A CHOFIWCH!
Gwnewch y posau ar gyfer un o'r ddau lwybr i HAWLIO GWOBR O'N CIST DRYSOR DIRGELION Y DDAEAR

Defnyddio Chwiliwr Posau GPS

Botwm **PŴER**

Botwm dewis **TUDALEN**

Botwm **OK**

Botymau **i fyny ac i lawr**

Ewch ag ef allan – gallwch wneud hyn ym Mharc Gwledig Loggerheads, Coed Moel Famau neu Goed Nercwys.

1 Gwasgwch a daliwch y botwm Pŵer.

Arhoswch i'r GPS ddarganfod y lloerennau - bydd y sgrin yn dweud 'READY TO NAVIGATE'.

Gwasgwch y botwm PAGE BEDAIR gwaith i gyrraedd tudalen y ddewislen.

Defnyddiwch y botymau i FYNY ac i LAWR i'r tab 'WAYPOINTS' a gwasgwch OK.

2 *Naill*
ai dewiswch 'LIST ALL' a defnyddiwch i FYNY ac i LAWR i fynd i C am COED NERCWYS neu M am COED MOEL FAMAU

neu
Dewiswch 'FIND NEAREST' a bydd y GPS yn dangos y pos agosaf atoch.

Rhestrir lleoedd pos COED MOEL FAMAU fel MF1 i MF7 a rhestrir lleoedd COED NERCWYS fel CN1 i CN8.

3 Defnyddiwch y botwm i FYNY ac i LAWR i fynd i'r pwynt pos o'ch dewis a gwasgwch OK.

4

Dylai'r sgrin nesaf fod ag 02 wedi ei ddewis. Gwasgwch OK.

5

Rydych ar eich ffordd! Dilynwch y saeth yn y cylch, bydd yn eich arwain at bwynt y pos. Mae'r pellter yn cyfrif tuag i lawr i'ch cael yn agos at bwynt y pos (o fewn 5m)

6 Pan ydych wedi gorffen pos ewch yn ôl i'r ddewislen (cam 1) i ddod o hyd i'r pwynt pos nesaf.

Awgrym cyflym

- Mae'r GPS yn gweithio pan ydych yn symud yn unig.
- Mae'n gweithio orau pan allwch weld yr awyr yn glir – gallwch golli'r signal yn y car neu o dan goed.
- Mae'r botwm PAGE yn eich symud rhwng tudalennau. Daliwch i wasgu i fynd drwy'r dewislenni i gael yr un a ddymunwch.
- Os yw'r cyfan yn mynd o'i le, diffoddwch y peiriant a dechrau eto.

Yn awr beth am ddechrau arni!

Ble rydych yn mynd?

Cyfeiriadau o Barc Gwledig Loggerheads

Ar gyfer COED MOEL FAMAU (1.9 milltir – 5 munud Ll Ll 53° 8'25.33"G 3° 14' 24.84Gor).
Trowch i'r dde o Barc Gwledig Loggerheads i'r A494. Cymerwch yr ail ar y dde ar ôl llai na milltir lle ceir arwydd Tafarn y Gelyn a Moel Famau. Ewch yn syth ymlaen am hanner milltir. Mae maes parcio Comisiwn Coedwigaeth Coed Moel Famau ar y dde. Nodwch fod arnoch angen £1 i barcio.

Ar gyfer COED NERCWYS (3.4 milltir – 8 munud Ll Ll 53° 7'29.58"G 3° 10'.56"Gor).
Trowch I'R CHWITH i'r A494. Ar ôl 0.9 milltir cymerwch y trydydd ar y DDE yn union ar ôl mynd heibio depo bysys 'Eagles Crawford' ar Ffordd Glyndwr. Trowch i'r chwith wrth Dafarn Owain Glyndwr gan ddilyn y ffordd o amgylch tro sydyn i'r dde i gyrraedd croesffordd ar Ffordd Glyndwr. Ewch yn syth ymlaen gan ddilyn Ffordd Cae Newydd gan gymryd y cyntaf ar y dde. Mae maes parcio COED NERCWYS ar y chwith.

EarthCaches yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd

Beth yw EarthCaches?

Mae EarthCaches yn lleoedd arbennig i grwydro o fewn y tirlun lle gellir gweld daeareg, golygfeydd neu storïau rhyfeddol. Gallai caer fynyddig o Oes yr Haearn fod yn un neu nant, pont, chwarel neu gofadail. Ceir EarthCaches mewn mannau o ddiddordeb arbennig ar hyd Llwybr Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa, Llwybr Dyffryn Clwyd a Llwybr Gogledd y Berwyn.

Sut y gallaf ddod o hyd iddynt?

Mae angen i chi fod yn meddu ar, benthyg neu hurio uned llaw GPS. Gyda hwn gallwch lawrlwytho'r cyfesurynnau ar gyfer holl caches Bryniau Clwyd o **www.geocaching.com.** Neu gallwch ddilyn y ddolen o wefan AHNE **www.clwydianrangeaonb.org.uk**
Mae pob mathau o caches wedi eu cuddio yn ac o amgylch AHNE Bryniau Clwyd. Os huriwch GPS o Barc Gwledig Loggerheads mae Llwybrau Dirgelion y Ddaear eisoes wedi eu llwytho i chi.

Caching ar draws y byd

Mae EarthCaching yn hwyl i'r teulu i gyd. Mae'n rhan o helfa drysor technoleg uchel ledled y byd o'r enw 'Geocaching'. Drwy 'Geocaching' fe ddeuwch o hyd i rai o'r mannau harddaf a mwyaf diddorol yn y byd. Ewch ar-lein a gweld a oes cache yn eich ymyl chi!

Hwyl i'r Teulu!
Beth am roi cynnig ar Lwybrau **Sticeri Loggerheads?**
Gofynnwch am fanylion

Cysyniad a chynnwys: No Nonsense-Interpretation Dyluniad graffig a dylunio: thinkgraphic.co.uk
Argraffwyd yng Nghymru gan WPG gan ddefnyddio inciau yn seiliedig ar olew llysiau ar stoc heb ei orchuddio a gafwyd o leoedd cynaliadwy

Stori Fflach

Mae Fflach yn sglodyn o olau enfys. Fe'i gwnaed gan yr

haul yn disgleirio ar lA rhewlif anferth a ffurfiodd y dyffryn hwn. Dyma ei stori...

Llwybr Fflach

Coed Moel Famau Coed Moel Famau Coed Moel Famau

Croeso!

I helpu Fflach ddod o hyd i'w ffordd yn ôl at yr enfys mae angen i chi ofyn am HUD Y DDAEAR. Mae pump o bosau o amgylch Coed Moel Famau. Beth am ddatrys y posau a darganfod y Pwll Dirgel a siantio'r swyn i anfon Fflach yn ôl at yr enfys. Arhoswch ar y llwybrau.

Ewch yn ôl i Loggerheads i hawlio eich TRYSOR o'n CIST TRYSOR arbennig.

Edrychwch drwy'r CRISIAL yn y pecyn ar eich cefn i weld y byd fel mae Fflach yn ei weld.

MF 1 DECHRAU

Gosodwch eich Chwiliwr Posau ar MF3

MF 2 PONT FFLACH

Nid y nant fach chwareus hon a wnaeth siapio'r dyffryn llydan hwn. Beth wnaeth?

_ _ _

CLIW – Gwnaeth yr holl greigiau yn y dŵr yn llyfn wrth iddo falu llawr y dyffryn.

TASG - Codwch garreg fach gron o wely'r nant.

MF 3 Y COED MEDDAL TAL

Coed meddal tal Americanaidd; beth sy'n gwneud y coed hyn mor wahanol i'r coed eraill a blannwyd neu sy'n tyfu'n naturiol yn y dyffryn? Yng Nghaliffornia lle maent yn tyfu'n naturiol, gallant fyw i fod yn 4,000 o flynyddoedd oed a thyfu i fod yn 115 metr o uchder. Mae ffosilau hynafiaid y coed hyn yn profi eu bod yn tyfu ym Mhrydain gannoedd o filiynau o flynyddoedd yn ôl

Ydych chi'n gwybod beth yw enwau'r coed hyn?

_ _ E _ _ N
_ _ O _ _

CLIW – Pa liw yw eu rhisgl?

TASGAU – Cyffyrddwch y rhisgl, sut deimlad sydd iddo?

Yn awr gosodwch eich Chwiliwr Posau ar MF4.

baaa!

MF 4 MAINC WEDI EI CHERFIO

Siapiwyd y fainc hon i edrych yn debyg i rywbeth a allai fod yn tyfu yma? Cwestiwn – Pa siâp yw'r fainc?

_ _ _ _ _

TASG – Dewch o hyd i un debyg iddi ac ewch â hi gyda chi.
TASG - Edrychwch i lawr y dyffryn, pa siâp ydi o? A yw'n edrych fel y llythyren U neu V?

Yn awr gosodwch eich Chwiliwr Posau ar MF5.

MF 5 YR ADERYN DU

Canfuwyd esgyrn anifeiliaid o Oes yr Iâ mewn ogofâu yn ymyl yma, ond ni chanfuwyd unrhyw adar.

Tasg - rhowch gylch o amgylch enw'r anifail sy'n byw yng ngrug Moel Famau heddiw.

RHEINO BLEWOG CARW GRUGIAR MAMOTH BLEWOG BLAIDD ARTH OGOF

Yn awr gosodwch eich Chwiliwr Posau ar MF6

MF 6 PWLL Y CRYCHDONNAU

Mae pyllau fel hyn yn aml yn ffurfio wrth geg rhewlifoedd. Edrychwch ar olion y crychdonnau yn y mwd ar waelod y pwll. Canfyddir marciau crychdonnau yn aml mewn ffosilau creigiau sy'n dangos eu bod ar un adeg yn welyau afon neu fôr.
Pa rym a olchodd y mwd i'r pwll – Disgyrchiant? Erydiad? Magneteg?

Ysgrifennwch y gair yma _ _ _ D _ _ _

Y Cliw Terfynol

Llenwch y gair sydd ar goll yn y rhigwm drwy gymryd y llythyren gyntaf o bob un o'ch atebion a'u rhoi yn eu trefn gywir.

Crisialau iâ yn pefrio'n ddisglair
Yn llif yr aer a'i olau llachar,
Ond mae'r enfys yn ei mawredd
Yn ofni grym y _ _ W _ _ F tawel.

MF 7? Y PWLL DIRGEL

Cymerwch lythyren gyntaf yr ateb i'r Cliw Terfynol a'i hychwanegu at MF7 i ddod o hyd i'r Pwll Dirgel.
Ai MF7R MF7A neu MF7S ydyw? Gofalwch eich bod yn ei gael yn iawn neu byddwch yn cerdded mewn cylchoedd.

I ddychwelyd Fflach at yr enfys...
Wedi i chi ddod o hyd i'r Pwll Dirgel, safwch ar y bont a gollwng eich carreg i'r nant gan adrodd y rhigwm hwn yn uchel:

Crisialau iâ yn pefrio'n ddisglair
Yn llif yr aer a'i olau llachar,
Y rhigwm hwn a'r garreg gron
A gluda Fflach i'w gartref llon

Gosodwch eich Chwiliwr Posau i MF1 i ddychwelyd i'r dechrau.

Llwybr Posau Coed Nercwys

Croeso!

Crwydrwch y goedwig ryfeddol hon i ddarganfod creigiau plyg, darn o draeth, pyllau enfawr a wnaed gan iâ a mwyngloddiau plwm. Defnyddiwch eich Chwiliwr Posau i ddod o hyd i bob cyferbwynt a gwnewch y posau. Yna ewch yn ôl i Loggerheads i hawlio eich TRYSOR DAEAR o'n CIST DRYSOR arbennig. Wedi i chi lenwi'r pwynt pos diwethaf dilynwch y Chwiliwr Posau i fwynhau'r wylfan yn CN8. Arhoswch ar y llwybrau.

DECHRAU

Gosodwch eich Chwiliwr Posau ar CN1 i ddechrau.

CN1

Gwnaed wal y maes parcio hwn o FWD! Filoedd o flynyddoedd yn ôl cafodd ei wasgu i wneud craig.

Helpwch Lewis y falwoden i rasio i fyny'r wal gan osgoi'r peryglon

Wal FWD

Yn awr gosodwch eich Chwiliwr Posau ar CN2 i ddarganfod y pos nesaf.

CN2 CRAIG YN PLYGU?

A all craig blygu?

Codwch ddarn o graig o'r chwarel.
Allwch chi wneud iddi blygu?
Mae rhai pethau yn plygu llawer.
Mae rhai pethau yn plygu ychydig.
Ac mae rhai pethau yn plygu ac yn torri!

Beth wnaeth i'r graig hon blygu?

18,000 mil o flynyddoedd yn ôl ymledodd dalen drwchus o iâ yn araf ar draws y tir gan ei orchuddio. Llusgodd ei bwysau anhygoel yn araf ar hyd y creigiau gan eu plygu wrth eu gorchuddio.
Beth sy'n plygu? Ceisiwch blygu banana, pensil, Lego, clai modelu neu rywbeth arall.

Gwnewch hyn gartref

Gwnewch res o friciau Lego neu Duplo a rhowch un arall ar ei ben. Ychwanegwch haenau hyd nes bo gennych bedwar neu bump. Edrychwch beth sy'n digwydd pan ydych yn eu plygu.

Rholiwch dri lliw gwahanol o glai modelu. Torrwch nhw i'r un hyd a thrwch a'u gosod ar ben ei gilydd. Plygwch nhw.

Pa un sydd fwyaf tebyg i graig sy'n plygu y chwarel ?

Mae darnau o Lego yn plygu ond yn torri fel y creigiau yn y chwarel.

baaa!

Gartref ar y Mynydd

CN3

Pwy oedd yn byw yma?

Unwch y dotiau a lliwiwch y llun.
Mae o wedi colli defaid!
Faint allwch chi ddod o hyd iddynt yn y comig hwn?
Dilynwch y wal i fyny'r mynydd i ddod o hyd i fwthyn y bugail.

Mae yna 25 o ddefaid ar goll – dywˆr rhai yn y llun ddim ar goll!

Ton o'r mynydd

CN4

Canfyddwch y traeth!

Ewch i chwilio ar hyd ochr llaw dde'r llwybr.
Fedrwch chi ddod o hyd i dywod a cherrig bach crynion yn y clawdd ar ymyl y llwybr? Mae'r rhain yn dangos er eu bod yn uchel i fyny ar Fynydd Nercwys heddiw fod hwn ar un adeg yn draeth! Gollyngwyd y tywod caregog gan donnau gannoedd o filiynau o flynyddoedd yn ôl. Gafaelwch mewn carreg gron ac ewch â hi gyda chi i ddangos eich bod wedi darganfod y traeth.

CN5 GOLWG O'R OES EFYDD

Dyw'r olygfa hon ddim wedi newid llawer ers Oes yr Iâ ddiwethaf filoedd o flynyddoedd yn ôl. Byddai wedi edrych yn debyg iawn i'r hyn mae'n edrych heddiw i bobl yr Oes Efydd a adeiladodd y carneddau claddu.

Ticiwch y pethau modern y gallwch eu gweld yn yr olygfa hon?

- Ffermydd Gwynt ☐
- Ffyrdd ☐
- Ffatri Sment ☐
- Peilonau Trydan ☐
- Eich Tŷ Chi ☐

CN6 PWLL IA

Beth wnaeth Bwll Ochin?
Cloddiwr mawr?
Deinasor yn tyrchu am fisgedi?
Darn enfawr o iâ wedi toddi?

Gollyngodd afon enfawr o iâ sef 'rhewlif' ddarn mawr o iâ oedd yn fwy na thŷ. Toddodd a ffurfiodd y pwll hwn. Mae'n cael ei alw yn

- Twll tegell ☐
- Twll tebot ☐
- Twll llygoden? ☐

Heddiw mae'n lle gwych i weld bywyd gwyllt

Gelwir llynnoedd rhewlifol fel hyn yn dyllau tegell oherwydd eu hochrau serth

CN7 Pos Pant Du

Mae Pant Du yn un o'r llawer o fwyngloddiau plwm yn yr ardal hon. Ond cloddiwyd am arian yn ogystal. Roedd yn fwynglawdd prysur, gyda nifer o siafftiau.

Darllenwch y gerdd a gweld a allwch ddyfalu o ble y daeth yr arian a'r plwm.

Edrychwch eto ar deitl y gerdd. Ffurfiwyd yr arian a'r plwm dros filiynau o flynyddoedd gan adwaith cemegol rhwng dŵr y môr a'r calchfaen.

Yr arian yn y môr

Yn y moroedd bas a'u hymchwydd
Gwibia'r pysgod chwim yn sydyn,
Nofiant drwy y dyfroedd claear
Gyda'u cennau disglair, llachar,
Ac mae dannedd main y cwrel
Yn cuddio cyfrinachau tawel.

Aeth mwyngloddwyr dan y ddaear
I gloddio'n ddwfn am fwynau gwerthfawr,
Nes cael craig oedd mor gyfoethog
Mewn mwyn arian da, godidog,
Tyllwyd siafftiau dwfn a'i tynnodd
A'r arian pur a lwyr ddiflannodd.

Fedrwch chi ddod o hyd i ARIAN yn y chwilair hwn?

I	A	R	A	I	N
A	N	A	R	A	I
R	A	R	I	A	N
I	R	R	A	I	R
R	N	A	I	N	I
R	A	I	A	R	N

Darganfyddwch y geiriau yn y cliwiau

D	S	T	Â	G	N
N	O	M	S	L	Y
L	A	D	T	A	G
L	N	I	D	W	I
E	C	D	R	I	G
G	I	W	B	A	R
E	Â	I	C	U	E
T	R	E	F	W	C

Dringodd y falwen y _ _ _
Gwnaeth yr iâ trwchus i'r creigiau _ _ _ _ _
_ _ _ _ _ _ _ _ yw carreg gron, lefn
_ _ _ _ _ _ _ yw pentwr o greigiau
Toddodd _ _ i ffurfio Pwll Ochin
Rydych yn berwi dŵr mewn _ _ _ _ _ _
Roedd Pant Du yn fwynglawdd arian
Pa air sydd ar goll?

Gosodwch eich Chwiliwr Posau ar CN1 i fynd yn ôl i'r dechrau